

**GORCHYMYN CYNGOR BRO MORGANNWG  
(GWAHARDD A CHYFYNGU AR FANNAU AROS A  
LLWYTHO A MANNAU PARCIO)  
(GORFODI SIFIL) (DIWYGIO) (RHIF 8) 2021**

1. Hysbysir drwy hyn bod Cyngor Bro Morgannwg, wrth arfer ei bwerau dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, a Deddf Rheoli Traffig 2004 a'r holl bwerau galluogi eraill, yn cynnig gwneud Gorchymyn er mwyn gosod a diwygio cyfyngiadau parcio amrywiol ar y ffyrdd a restrir fel y cyfeirir atynt yn yr Atodlen isod.
2. Mae modd gweld manylion llawn y cynigion ar wefan y Cyngor yn [www.bromorgannwg.gov.uk](http://www.bromorgannwg.gov.uk) neu yn Nerbynfeydd y Swyddfeydd Dinesig a Depo'r Alpau, Gwenfô ac mae'n rhaid cyflwyno unrhyw wrthwynebiadau a allai fod gennych i'r cynnig hwn i Gyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai (Cyf. IF939) yn ysgrifenedig neu drwy e-bost i [C1V@valeofglamorgan.gov.uk](mailto:C1V@valeofglamorgan.gov.uk) erbyn **3 Medi 2021** ac mae'n rhaid cynnwys eich rhesymau dros wrthwynebu.
3. Rhoddir gwybod i unrhyw un sy'n gwrthwynebu'r Gorchymyn arfaethedig, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) 1985, fod rhwymedigaeth gyfreithiol ar y Cyngor hwn i alluogi'r cyhoedd i archwilio unrhyw sylwadau a ddaw i law am y Gorchymyn arfaethedig.

Mae'r Gorchymyn Rheoleiddio Traffig canlynol i'w ddiwygio fel a ganlyn:

**Gorchymyn Gwahardd a Chyfyngu ar Fannau Aros a Llwytho a Mannau Parcio (Gorfodi Sifil) 2013**

**ATODLEN**

**Mewnosoder yn Atodlenni Mapiau AS63, AT63, AU63, AQ64, AR64 and AS64**

**Gorchymyn Gwahardd Aros ar Unrhyw Adeg Arfaethedig**

**Lavernock Road, Penarth**

Ar ochr y de-ddwyrain, o'r gyffordd â St Mary's Well Bay Road tua'r de-orllewin am oddeutu 50 metr.

Ar ochr y de-ddwyrain, o'r gyffordd â St Mary's Well Bay Road tua'r gogledd-ddwyrain i'r gyffordd â Fort Road am oddeutu 235 metr.

Ar ochr y de-ddwyrain, o'r gyffordd â Fort Road tua'r gogledd-ddwyrain i'r gyffordd ag Upper Cosmeston Farm am oddeutu 378 metr.

Ar ochr y dwyrain, o'r gyffordd ag Upper Cosmeston Farm tua'r gogledd i'r gyffordd â Cosmeston Drive am oddeutu 179 metr.

Ar ochr y dwyrain, o'r gyffordd â Cosmeston Drive tua'r gogledd i'r gyffordd â Thafarn Schooner Inn am oddeutu 219 metr.

Ar yr ochr ddwyreiniol, o'r gyffordd â Thafarn Schooner Inn, tua'r gogledd, yn cyd-redeg â'r gwaharddiad aros ar unrhyw adeg presennol ar Brockhill Rise, am oddeutu 239 metr.

Ar ochr y gogledd-orllewin, o bwynt 50 metr i'r de-orllewin o'r gyffordd â St Mary's Well Bay Road, tua'r gogledd yn gyffredinol, i'r gyffordd â Pharc Gwledig Llynnoedd Cosmeston, am oddeutu 796 metr.

Ar ochr y gorllewin, o'r gyffordd â Pharc Gwledig Llynnoedd Cosmeston, tua'r gogledd am oddeutu 442 metr.

**St Mary's Well Bay Road, Penarth**

Ar ochr y gorllewin, o'r gyffordd â Lavernock Road, tua'r de am oddeutu 10 metr.

Ar ochr y dwyrain, o'r gyffordd â Lavernock Road, tua'r de am oddeutu 30 metr.

**Fort Road, Penarth**

Ar ddwy ochr y gyffordd â Lavernock Road, tua'r de-orllewin am oddeutu 10 metr

**Upper Cosmeston Farm, Penarth**

Ar ddwy ochr y gyffordd â Lavernock Road, tua'r dwyrain am oddeutu 10 metr.

**Cosmeston Drive, Penarth**

Ar ddwy ochr y gyffordd â Lavernock Road, tua'r dwyrain am oddeutu 10 metr.

**Parc Gwledig Cosmeston**

Ar ddwy ochr y ffordd fynediad ddienw, o'r gyffordd â Lavernock Road, tua'r gorllewin am oddeutu 39 metr.

O gyffordd y maes parcio mewnol cychwynnol ar y ffordd fynediad ddienw, am oddeutu 10 metr ar bob cangen o'r gyffordd

**NI fydd y cyfyngiadau'n berthnasol pan fo'r marciau wedi'u hepgor wrth fynediad gatiau, croesfan i gerbydau neu gerddwyr.**

Dyddiedig 13 Awst 2021.  
Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Thai  
Cyngor Bro Morgannwg, Yr Alpau, Gwenfô. CF5 6AA.